

Yn ystod eich cyfweiliad

- Byddwch yn gwrtais a chofiwch wenu.
- Efallai y bydd eich cyfwelydd yn estyn llaw i'ch cyfarch, er bod hyn yn llai cyffredin yn dilyn Covid-19.
- Mae cyfweiliadau'n brofiad nerfus i'r mwyafrif o bobl, ond y gamp yw peidio â gadael i'ch nerfau eich trechu. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cofio anadlu, yn yfed rhywfaint o ddŵr pan fydd ei angen arnoch chi, ac yn siarad yn glir ac yn hyderus i sicrhau eich bod chi'n rhoi'r argraff orau ohonoch chi'ch hun.
- Os oes angen i chi gymryd ychydig eiliadau i feddwl am y cwestiwn cyn ei ateb, mae hynny'n iawn, nid oes angen i chi ddechrau ar eich ateb ar unwaith.
- Meddyliwch am eich iaith gorfforol - rydych chi eisiau edrych yn frwdfrydig ac â diddordeb yn ystod y cyfweiliad. Felly, meddyliwch am eich osgo a gwnewch yn siŵr nad ydych, cyn belled â phosibl, yn croesi'ch breichiau, yn gwingo, neu'n tapio'ch traed.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n edrych i lygaid y cyfwelydd. Os ydych chi'n cael eich cyfweld gan banel, ceisiwch gipedrych ar weddill y panel a pheidiwch â chanolbwyntio'ch sylw ar yr unigolyn sydd wedi gofyn cwestiwn i chi'n unig.
- Os ydych chi'n cael cyfweiliad rhithwir, peidiwch ag ateb cwestiynau, er enghraifft, 'beth yw gwerthoedd y sefydliad?', trwy'u darllen o'ch sgrin neu'ch ffôn. Bydd y panel yn gallu'ch gweld chi'n gwneud hyn ac efallai y bydd yn rhoi'r argraff iddyn nhw nad ydych chi wedi gwneud eich ymchwil.
- Byddwch yn chi'ch hun. Byddwch yn agored ac yn onest wrth ateb cwestiynau, mae'r panel cyfweld eisiau gwybod pwy ydych chi a beth rydych chi'n ei feddwl yn hytrach na chlywed am brofiadau lliwgar.
- Os nad ydych yn deall cwestiwn, gofynnwch am eglurhad neu gofynnwch iddynt ailadrodd y cwestiwn. Os nad ydych chi'n gwybod ateb, byddwch yn onest, mae'n well nag ateb y cwestiwn yn anghywir. Yn yr achos hwn, os nad ydych wedi profi sefyllfa benodol, rhowch enghreifftiau o sut y byddech chi'n ymateb/ beth allech chi ei wneud i'w datrys.
- Ceisiwch osgoi rhoi atebion "ie" a "na" yn unig gan fod y rhain yn atal y sgwrs, yn lle hynny gwnewch yn siŵr eich bod yn ymhelaethu ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i gefnogi'ch ymateb.
- Peidiwch ag anghofio defnyddio'ch cyfle i ofyn cwestiynau.
- Gorffennwch ar nodyn cadarnhaol. Pan fydd y cyfweiliad drosodd, gwenwch a diolchwch i'r panel o gyfwelwyr am eu hamser.